# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT

## 5ED GORFFENNAF 2018

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** G. Davies (Aelod o’r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Regeneration Meeting Room, County Hall, Carmarthen - 9:00am - 9:10am

### 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

### 2. PENODI LLYWODRAETHWYR A.LL.

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law am y swyddi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn y sir. Nodwyd bod gwahoddiad i gyflwyno enwebiadau wedi'i roi i'r Cadeirydd, i Bennaeth yr Ysgol ac i'r Aelod(au) Lleol yn achos Ysgolion Cynradd/yr Aelod(au) a oedd yn llywodraethwyr yn achos Ysgolion Uwchradd.

Hefyd nodwyd bod Llywodraethwyr ALl yn cael eu penodi am 4 blynedd ac, os oedd y swydd yn wag oherwydd bod cyfnod yr unigolyn yn y swydd yn dod i ben, roedd nodyn ynghylch hynny yn cael ei gynnwys yn y manylion am yr unigolyn os oedd am gael ei ailbenodi.

**PENDERFYNWYD, ar ôl ystyried y ceisiadau a ddaethai i law, benodi'r canlynol yn Llywodraethwyr ALl er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau statudol i lenwi lleoedd gwag ar Gyrff Llywodraethu:-**

| Ysgol Gynradd | Penodiadau |
|---|---|
| Bryn Teg<br>(2 le gwag – 1 enwebiad) | Y Cynghorydd J.P. Hart |
| Dewi Sant<br>(2 le gwag – 2 enwebiad) | Mrs C.M. Thomas<br>Mr J. Treharne |
| Llanddarog<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Mrs M. Rees |

| Ysgol Arbennig | Penodiadau |
|---|---|
| Rhyd-y-gors<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Mr M. Collins |

3. **CYMERADWYO DYDDIADAU TYMHORAU A GWYLIAU YSGOL AR GYFER Y FLWYDDYN ACADEMAIDD 2020/21.**

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a fanylai ar ddyddiadau arfaethedig tymhorau a gwyliau'r ysgolion ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21. Dywedwyd bod Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi defnyddio Deddf Addysg (Cymru) 2914 i wneud newidiadau deddfwriaethol i sut y pennir dyddiadau'r tymor er mwyn cysoni dyddiadau tymhorau ysgolion yn yr holl ysgolion a gynhelir.

O ganlyniad i'r newidiadau hyn roedd angen i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig gydweithio er mwyn sicrhau bod dyddiadau'r tymhorau'r un fath, neu cyn agosed ag y bo modd. Gallai ysgolion hefyd gael cyfarwyddyd gan Weinidogion Llywodraeth Cymru ynghylch dyddiadau eu tymhorau, os nad oedd y dyddiadau hynny'n gyson, neu os oedd angen eu newid.

Gan roi sylw i ofynion y Ddeddf, yr oedd y dyddiadau arfaethedig canlynol wedi'u paratoi ar gyfer dyddiadau tymhorau a gwyliau'r ysgolion yn sgil eu trafod ac yn sgil ymgynghori'n gyffredinol â'r awdurdodau cyfagos:-

| **Tymor** | **Dechrau** | **Dechrau Hanner Tymor** | **Diwedd Hanner Tymor** | **Diwedd y Tymor** |
|---|---|---|---|---|
| **Hydref** | Mawrth 1 Medi 2020 | Llun 26 Hydref 2020 | Gwener 30 Hydref 2020 | Mawrth 22 Rhagfyr 2020 |
| **Gwanwyn** | Llun 4 Ionawr 2021 | Llun 15 Chwefror 2021 | Gwener 19 Chwefror 2021 | Gwener 26 Mawrth 2021 |
| **Haf** | Llun 12 Ebrill 2021 | Llun 31 Mai 2021 | Gwener 4 Mehefin 2021 | Gwener 16 Gorffennaf 2021 |

*Sul y Pasg - Dydd Sul 4 Ebrill 2021; Calan Mai - Dydd Llun 3 Mai 2021.*

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol, petai'r dyddiadau yn cael eu cymeradwyo, y byddent yn amodol ar y trefniadau cysoni y cyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad ac felly ni fyddai modd eu cadarnhau'n derfynol hyd nes y ceir cadarnhad gan Weinidogion Cymru.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo Dyddiadau Tymhorau a Gwyliau'r Ysgolion ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2020/21.**

4. **LLOFNODI YN COFNOD CYWIR COFNOD PENDERFYNIADAU'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 4YDD MEHEFIN, 2018.**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 4 Mehefin, 2018 yn gofnod cywir.**

________________________________ ________________

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**